Papur y Bwrdd

2 Hydref 2014

Teitl y Papur:	**Sefydlu Strategaeth Gyfathrebu**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 67.14**
Paratowyd y Papur gan:	**Catherine Smith**

Pwrpas y Papur:	**Penderfyniad**
Argymhelliad:	Cytuno ar y Strategaeth Gyfathrebu dair blynedd arfaethedig, ymrwymo i flaenoriaethau cyfathrebu blwyddyn un a fydd yn sail i bob gweithgarwch rhwng mis Hydref 2014 a mis Hydref 2015, yn cynnwys adolygiad marchnata ledled y sefydliad i'w gynnal yn 2015.
Angen Penderfyniad:	Cytuno ar y Strategaeth Gyfathrebu arfaethedig a'i hargymell i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd cyfathrebu ein diben a'r dull o reoli adnoddau dynol yn strategol ac effeithiol gyda staff a chynulleidfaoedd allanol yn ysgogi gwaith ymgysylltu, gwybodaeth a gweithgarwch a fydd yn helpu i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. **Effaith ar yr Economi**: Bydd cyfathrebu effeithiol yn gwneud rôl CNC yn fwy amlwg gan gynnwys cynyddu'r wybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael, ochr yn ochr â rheoleiddio a gorfodi yn ogystal â gwella lefelau gofal cwsmeriaid. **Effaith ar y Gymuned**: Bydd cyfathrebu effeithiol yn meithrin ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â diben CNC a'r dull o reoli adnoddau dynol gyda chynulleidfaoedd targed, yn ogystal ag ysgogi

	gwybodaeth am wasanaethau, cymorth a chyfleusterau a ddarperir gan y sefydliad. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd y rhaglen fewnwelediad arfaethedig sy'n rhan o'r strategaeth hon yn cynyddu dealltwriaeth CNC o sefyllfa'r sefydliad gyda chynulleidfaoedd allweddol, lefelau boddhad a data i lywio cyfeiriad strategol a datblygiad gwasanaeth.

Pwnc

Mae Strategaeth Gyfathrebu effeithiol a model ar gyfer cyflawni yn hanfodol er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru allu cyflawni ei weledigaeth a datblygu brand cryf sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Mae'r papur hwn yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Gyfathrebu arfaethedig, ymrwymiad i flaenoriaethau blwyddyn un a chytundeb ar ddull y cynllun gwaith, a fydd yn cynnwys adolygiad marchnata ledled y sefydliad.

Crynodeb

Mae'r Strategaeth Gyfathrebu arfaethedig yn cwmpasu tair blynedd a'i nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae'n creu fframwaith cyfathrebu tair blynedd yn seiliedig ar gylch cyflawni naturiol a gyflwynir fesul cam:

Blwyddyn Un	Creu'r sylfaen Hydref 2014 – Hydref 2015
Blwyddyn Dau	Datgloi'r potensial Hydref 2015 – Hydref 2016
Blwyddyn Tri	Sefydliad sy'n cyflawni'n dda Hydref 2016 – Hydref 2017

Bydd yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sefyllfa 'synnwyr cyffredin' cryf i'r sefydliad, gan feithrin dealltwriaeth o pwy ydym ni a beth yw ein gwaith ymysg cynulleidfaoedd allweddol. Nod y strategaeth yw ein galluogi i fod yn greadigol a hyblyg, i allu symud i gau'r bylchau rhwng ble rydym ni ar hyn o bryd a ble rydym ni yn dymuno bod fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac ymgysylltu â chwsmeriaid.

Mae angen datblygu dull cyflawni cyfathrebu integredig, ochr yn ochr â'r adnoddau a'r cynlluniau cyfathrebu angenrheidiol (yn cynnwys rhai digidol), nad oes gan y sefydliad ar hyn o bryd, yn enwedig o ran gwerthuso a sicrhau dealltwriaeth – elfennau hanfodol wrth gynllunio gwaith cyfathrebu.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn canolbwyntio ar gyflawni, felly rydym wedi gwneud pob ymdrech i osgoi cynnwys gormod o theori a chyd-destun diangen yn y Strategaeth Gyfathrebu.

Mae llawer iawn o ddeunyddiau cyfathrebu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a nod y strategaeth arfaethedig yw sicrhau bod CNC yn hoelio'r sylw. Y bwriad yw y bydd y dull arloesol hwn o gyfathrebu yn adlewyrchu natur arloesol CNC.

Cefndir

Mae'r Strategaeth hon yn ddogfen fyw sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer gwaith y sefydliad cyfan i feithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth yn stori ein sefydliad, ein gwerthoedd a'n gwaith. Mae'n rhoi cyfeiriad cryf i'n holl waith cyfathrebu ymgyrraedd ato, gan ein helpu i fanteisio ar bob cyfle a'i lywio mewn ffordd gwbl ystyrlon.

Mae hefyd yn cydnabod rôl y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn natblygiad diwylliannol CNC, a'r angen i symud i ddull mwy soffistigedig o ymgysylltu â staff i feithrin hyder mewn gweledigaeth ar gyfer y sefydliad ac ethos cwsmeriaid cryf.

Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth a hygrededd yn Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan osgoi'n llwyr y canlyniadau 'brand diystyr' y byddai dull tymor byr yn eu cyflawni. Mae'r deunydd crai yn rhagorol: mae hanesion ardderchog, staff brwdfrydig a gwybodus, diben cryf a natur arloesol i gyd yn elfennau allweddol o sefydliad blaenllaw a allai arwain y byd. Bydd y Strategaeth Gyfathrebu'n sicrhau bod y deunyddiau'n cael eu cyfeirio yn y ffordd briodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

Bydd gwaith cyfathrebu'r sefydliad hwn yn cael ei gynllunio i fod yn effeithiol ac effeithlon ac yn cael ei werthuso'n llawn er mwyn dangos yr effaith y bydd yn ei chael. Ein nod yw rhoi blaenoriaeth i ymgyrchoedd cost isel a digost dros hysbysebu, gan ddefnyddio'r adnoddau priodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd er mwyn sicrhau safon uchel a gwerth am arian.

Mae cyd-destun Cymru'n symud yn gyflym ac yn newid o hyd ac mae'n rhaid i ddulliau cyfathrebu gyd-fynd â datblygiad cyflym Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy ddefnyddio dull dogfen fyw ac adolygu'r strategaeth yn gyson, rydym yn gallu darparu gwasanaeth cyfathrebu hyblyg ac ymatebol.

Dylai gwaith cyfathrebu gael ei gynllunio o sefyllfa wybodus, gyda data a gwybodaeth sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd allweddol. Bydd blaenoriaethau cyfathrebu a Chynlluniau Gwaith blynyddoedd dau a thri yn elwa ar wybodaeth o'r Rhaglen Fewnwelediad arfaethedig ac fe'u datblygir fel rhan o gylch cynllunio busnes blynyddol y sefydliad. Fel

pob strategaeth, mae hwn yn fan cychwyn ac mae llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad llawn y sefydliad.

Mae'r dull arfaethedig yn caniatáu i ni gadw ffocws a datblygu cyfleoedd a threfniadau cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill mewn perthynas â gwaith cyfathrebu a fydd o fudd i bawb.

Bydd rhaglen newid y gyfarwyddiaeth gyfathrebu yn gam pwysig tuag at gyflawni'r model darparu integredig angenrheidiol, ac mae'n hanfodol bod y rhaglen hon yn cael ei chwblhau cyn diwedd y flwyddyn fel bod modd sicrhau cynnydd yn gyflymach.

Mae cyfathrebu digidol yn rhan annatod o allu'r sefydliad i ddarparu ymgyrchoedd effeithiol, diddorol, amserol, cost isel – felly, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu digidol a dylunio creadigol o ran y sgiliau a'r cyfryngau rydym yn eu defnyddio.

Mae hefyd angen adolygu gwaith a gwariant ar gyfathrebu ledled y sefydliad, yn ogystal â gweithgarwch a threfniadau marchnata, gyda'r nod o nodi adnoddau, arbedion effeithlonrwydd a model cyflawni marchnata effeithiol.

Camau Nesaf

- Cyflwyno cynllun gwaith blwyddyn un a pharhau i weithio tuag at dasgau Medi/Hydref 2014.
- Gwneud Strategaeth Gyfathrebu yn rhan annatod o'r sefydliad.
- Rhannu'r Strategaeth arfaethedig a thrafod cyfleoedd a rennir gyda chydweithwyr cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol.
- Cwblhau rhaglen newid y Gyfarwyddiaeth er mwyn sefydlu'r model cyflawni integredig.

Risgiau

- Bydd methu â chadarnhau cyfeiriad ar gyfer cyfathrebu, fel y nodir yn y strategaeth, yn atal y sefydliad rhag manteisio ar gyfathrebu effeithiol o ran sefydlu sefyllfa'r sefydliad a chyflawni ei weledigaeth.
- Mae'r strategaeth yn dibynnu ar ymrwymiad llawn y Tîm Gweithredol. Bydd methu â sicrhau bod y cyfeiriad a nodir yn y strategaeth yn cael ei adlewyrchu yng Nghynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn amharu ar gynnydd.
- Er mwyn cyflawni'r strategaeth a chynllun gwaith blwyddyn un yn llwyddiannus, bydd angen tîm cyfathrebu amlddisgyblaethol arbenigol. Bydd methu â chyflawni'r ad-drefnu er mwyn cefnogi'r model cyflawni integredig yn cael effaith ddifrifol am gynnydd.

- Mae adolygiad o waith cyfathrebu a marchnata a gwariant yn hanfodol. Hebddo, ni fyddai gan y sefydliad syniad clir ynglŷn ag a yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac a yw arbedion effeithlonrwydd yn bosibl.

Goblygiadau Ariannol

Defnyddir adolygiad o adnoddau cyfathrebu a marchnata ledled y sefydliad i nodi cyllideb gyfathrebu wedi'i hail-flaenoriaethu.

Cyfathrebu

Ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd, caiff y Strategaeth Gyfathrebu ei rhannu ar draws y sefydliad a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod staff yn gallu cyfrannu i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

Mynegai o Atodiadau
Atodiad 1 Cynllun gwaith cyfathrebu blwyddyn un